# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2014**

Amser:
**09.15**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Siân Phipps**
Committee Clerk
029 2089 8582
Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

## Agenda

### Cyfarfod cyn y prif gyfarfod (09.15-09.30)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Ardaloedd Menter, Dinas-Ranbarthau a Metro (09.30-10.15)

(Tudalennau 1 - 29)
Gareth Jenkins, Cadeirydd, Ardal Menter Glyn Ebwy
John Idris Jones, Cadeirydd, Ardal Menter Eryri

**Dogfennau atodol:**
Briff Ymchwil (Saesneg yn unig)
EBC(4)-31-14 (p. 1) - Llythr gan Gadeiryddion yr Ardaloedd Menter (Saesneg yn unig)

### (Egwyl 10.15-10.25)

## 3 Ardaloedd Menter, Dinas-Ranbarthau a Metro (10.25-11.15)

Roger Lewis, Cadeirydd, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Steve Phillips, Cynghorydd, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

## 4 Ardaloedd Menter, Dinas-Ranbarthau a Metro (11.15-12.00)

Jon Lamonte, Prif Weithredwr, TfGM, Manceinion Fwyaf

## Egwyl (12.00-13.00)

## 5 Ardaloedd Menter, Dinas-Ranbarthau a Metro (13.00-14.30)

(Tudalennau 30 - 33)
Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Tracey Burke, Cyfarwyddwr, Strategaeth

**Dogfennau atodol:**
EBC(4)-31-14 (p. 2) - Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## Ôl-drafodaeth - Preifat (14.30-15.00)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

9th October 2014

Edwina Hart MBE OStJ AC/AM
Minister for Business, Enterprise, Technology & Science
Welsh Government
Cardiff Bay
CF99 1NA

Dear Minister

**Enterprise Zones**

The Welsh Enterprise Zones Chairs have been discussing a number of common areas and have agreed to write to you with our views. Therefore on behalf of all of the Chairs please find below our collective and considered views on a number of issues.

**Progress**

First and foremost, we need to reflect that the Welsh Enterprise Zones are performing well and have made considerable progress. Many of the Enterprise Zones are having impact both within and beyond their boundaries, and we are pleased that Enterprise Zones are starting to make an important contribution to their local and wider economies.

**Key Performance Indicators**

This progress is reflected in the figures that have been published, and we are aware that you are now committed to publishing updates on these figures on a six-monthly basis. We agree that this will provide stakeholders and commentators alike with regular and current information on how the Zones are performing.

It is important that we express significant concerns about these figures being broken down to Zone level information for the public domain. As those closest to the delivery challenges faced by the Zones, we feel strongly that this focus on the prospects of individual Zones, within what is a national programme, is not in any way helpful to our delivery across zones. As discussed we believe that in many ways Enterprise Zones act as the catalyst for many other successful projects in and beyond Wales. We are concerned about the impact of sharing and breaking down commercially sensitive information involving the private sector. We are also concerned about the potential impact this could have on existing companies within Enterprise Zones, and companies considering expanding and locating their businesses to Zones.

We see the Welsh Enterprise Zones as a national branded programme and not seven individual projects. From the start of the project the Chairs have worked together geographically and within sectors to bring the maximum benefits to the Welsh economy. The Zones do not compete with each other; in fact for us collaboration is a core value. We regularly share best practise and debate common issues such as energy and skills

In our view the requests for individual Zone level information do not originate from within the private sector. We can therefore only conclude that such requests are from non-commercial interests with a particular motive. Whilst we always seek transparency, good governance and the support of the wider audience our first consideration must be commercial confidence. We can only see the negative impact of the release of sensitive information.

In terms of progress we openly acknowledge that all Zones are progressing at a different pace; they are not all the same and this has been recognised from the start. In some areas we are facilitating the development of "hot spots". In other areas, we are tacking "cold spots" and doing what we can to stimulate economic activity within and around the actual Zone.

We regularly benchmark our progress against other EZ's in the UK. On this basis we are not aware that the English Enterprise Zones are publishing individual Zone information of any depth, but we continue to monitor the situation. We are certain that the 20+ English Enterprise Zones do not operate in the same collective way that we do in Wales.

We have also discussed that the primary focus on jobs within the EZ's and that in our view it is not an accurate indicator of economic progress in a modern economy. Our advice has always been that developed countries have moved from the view of the 1950-1980 periods where there was a fixation with the "quantity" of jobs. In 2014 a modern economy seeks to attract sustainable high value added activities which in turn create employment appropriate to these economic fundamentals. In other words it is about quality as opposed to quantity. Our view has been consistent from the start of the project that a pursuit of "jobs for jobs sake" would invariably lead to low value added unsustainable employment.

In a broader context the boards recognise that companies have different capital to labour ratios, therefore some investments will create less employment than others. On a national basis any differences in labour rates will probably reflect in the type of investment activity. An example would be that higher labour rate area would tend to attract higher capital intensive projects than a lower labour rate area with the obvious knock on effect.

Our ambition must always be to attract investment where the value added activity is higher than the existing local average. This will have the maximum impact on Welsh GDP per head and enhance the employment multipliers into the wider economy. This type of "externability" is not captured by the simple measure of job creation within a Zone.

In our view Wales is a modern economy and we need to pursue high value added investments as a priority. This is what we are actively engaged with and have been from the start of the project.

The EZ programme is by its very nature a long term economic strategy. At the present time the only time bound components of the programme are the availability of Enhanced Capital Allowances from HM Treasury and the forthcoming round of EU structural funds. As Chairs we need to progress with delivering what is on hand, focusing on creating and supporting

successful Enterprise Zones. Our boards are largely constituted from the private sector as volunteers and do not wish to be distracted by any fixation with short term progress but will seek to be as transparent as possible.

We have recommended that it is good governance for boards to monitor progress across the Zones, and that is why we fully support the longitudinal survey for Enterprise Zones which you are undertaking.

**Enhanced Capital Allowances**

We are aware of recent discussion about whether more areas which could attract Enhanced Capital Allowances. We acknowledge the allocations already made to Welsh Enterprise Zones but clearly we would be interested in the possibility of further sites being able to attract ECAs. We would be willing to lend support to any further enquiries you might make of HM Treasury or HMRC as to the opportunities for and costs of further ECA sites.

**European Structural Funds**

Our discussions and experience across the Enterprise Zones is revealing some common themes that we would like to explore further. In particular, we believe there are opportunities to use EU Structural Funds to support the shared challenges raised by critical issues such as energy, skills and infrastructure. We would appreciate discussing this with you further and if possible also with the Minster for Finance, given her responsibility for EU funding.

**Planning**

A number of the Zone Chairs also have issues about planning within their Zones, where the issue could become a barrier to achievement. We would be happy to provide you with further information in that regard if required.

To conclude, we feel that the Zones are developing well, they are understandably developing at different paces given their differing starting points, but all are seeing some positive economic activity. These Zone however are not short term fixes, they are preparing longer term foundations and we hope will provide opportunities for jobs and growth for many years to come.

Regards

**Gareth Jenkins**
**Chair, Ebbw Vale Enterprise Zone**
*On behalf of:-*
David Jones, Chair, Deeside Enterprise Zone, John Idris Jones, Chair, Snowdonia Enterprise Zone, Neil Rowlands, Chair, Anglesey Enterprise Zone, Professor Garel Rhys, Chair, St Athan and Cardiff Airport Enterprise Zone, John Antoniazzi, Chair, Central Cardiff Enterprise Zone

Eitem 5

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

## Dinas-ranbarthau, y Metro, ac Ardaloedd Menter

## Papur gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

## Cyflwyniad

1. Diben y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i lywio a chefnogi gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.

2. Mae'r papur yn rhoi gwybodaeth am Ddinas-ranbarthau, y Metro ac Ardaloedd Menter. Mae'r rhain yn rhan o ddull gweithredu ehangach a strategol mewn perthynas â'r economi, sy'n canolbwyntio ar sectorau economaidd â blaenoriaeth, yn cefnogi'r broses o gadw cyflogaeth sy'n bodoli eisoes, yn creu swyddi newydd, ac yn ysgogi buddsoddiad mewn busnes a seilwaith.

3. Mae'r papur yn dechrau gyda throsolwg o'r Dinas-ranbarthau o ran eu cefndir, cyd-destun a datblygiadau diweddaraf, cyn troi at y Metro ac Ardaloedd Menter.

## Dinas-ranbarthau

4. Mae'r achos a'r rhesymeg y tu ôl i Ddinas-ranbarthau yng Nghymru yn defnyddio sail dystiolaeth sy'n amlygu'r cyswllt cryf rhwng dinasoedd a thwf. Ystyriwyd y sail dystiolaeth hon yn fanwl gan grŵp cynghori annibynnol, a gadeiriwyd gan Dr Elizabeth Haywood. Roedd y Grŵp o'r farn bod Prifddinas-ranbarth Caerdydd, a Dinas-ranbarth Bae Abertawe, yn dangos y màs critigol posibl, llifau traffig a hunaniaeth gymunedol sy'n sail i Ddinas-ranbarthau llwyddiannus. Roedd yn cydnabod bod y ddau Ranbarth yn ffurfio ardaloedd economaidd gweithredol, lle gall pobl, busnesau, a chymunedau ryngweithio ar draws ffiniau gweinyddol lleol ar gyfer gwaith a hamdden.

   Y Byrddau

5. Er mwyn datblygu'r agenda hon, sefydlais Fyrddau ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd a Dinas-ranbarth Bae Abertawe gydag ymgysylltiad cryf gan y sector preifat, yn ogystal ag Awdurdodau Lleol ac Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae'r Byrddau mewn sefyllfa dda i weithredu fel hyrwyddwyr pwerus ar gyfer eu Rhanbarth, gan roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar y cyfleoedd i'w priod Ranbarthau. Mae eu cylch gwaith fel a ganlyn:

   - rhoi arweinyddiaeth, gweledigaeth a chyfeiriad strategol
   - rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n cynnig potensial i gyflawni newid economaidd trawsffurfiol ar draws y Rhanbarth
   - ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach er mwyn annog a chefnogi dull cydweithredol i sicrhau bod y Ddinas-ranbarth yn llwyddiant.

6. O fewn cyd-destun eu cylch gwaith, bydd y Byrddau hefyd yn nodi'r amserlen a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer cyflawni.

7. Ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd, caiff y Bwrdd ei gadeirio gan Roger Lewis, ac ym Mae Abertawe, yn ddiweddar, mae Syr Terry Mathews wedi ymgymryd â chadeiryddiaeth y Bwrdd.

Datblygiadau yn Ninas-ranbarth Bae Abertawe

8. Mae Bwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol ar gyfer y Rhanbarth. Mae wedi bod yn ystyried beth yw'r ffordd orau o sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r cylch ariannu Ewropeaidd sydd ar droed, gan ddod i gonsensws rhanbarthol, ac archwilio prosiectau sydd o bwys yn rhanbarthol. Ym mis Medi, cynhaliwyd gweithdy cynllunio er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu cynigion ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe. Daeth hyn ag amrywiaeth o uwch arbenigwyr ar bensaernïaeth ryngwladol; cynllunio prosiect isadeiledd peirianneg sifil a datrysiadau cyflawni; cynllunio ac adfywio ynghyd.

Datblygiadau ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd

9. Mae Bwrdd Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn datblygu Cynllun Strategol a fydd yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer y Rhanbarth a bydd yn llywio, yn llunio ac yn arwain y broses ddatblygu economaidd strategol. Bydd y Bwrdd yn cwblhau'r dasg hon ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd. Cytunodd y Bwrdd hefyd ar dair thema strategol ar gyfer y Rhanbarth - Cysylltedd, Arloesedd a Sgiliau. Mae'r Bwrdd wedi nodi'r Metro fel y brif flaenoriaeth ar gyfer y Rhanbarth, gan gydnabod ei fod yn ymyriad strategol a fydd yn cael effaith ar bobl, busnesau a chymunedau ar draws y Ddinas-ranbarth.

Ariannu

10. Nid oes gan Ddinas-ranbarthau gyllideb benodol wedi'i neilltuo gan fod cysylltiadau clir rhwng y broses o'u cyflawni a rhaglenni, ymyriadau a gweithgareddau eraill.

## Y Metro

11. Caiff y cynnydd a wnaed gennym hyd yma ar y Metro, y camau gweithredu uniongyrchol a nodwyd ar gyfer y cam cyflawni nesaf, a syniadau newydd y gellir eu profi ymhellach cyn buddsoddi yn y dyfodol eu nodi yn yr adroddiad diweddaru a gyhoeddwyd yn ystod yr haf. Mae'r adroddiad diweddaru hwn ar gael yn ar wefan Llywodraeth Cymru.

12. Mae cynnydd mewn perthynas â'r Metro yn elfen bwysig o ddarparu ateb trafnidiaeth integredig, sy'n ysgogi gweithgarwch economaidd, ac sy'n drawsffurfiol ei effaith. Mae cysylltiadau allweddol yn cael eu gwneud rhwng y Metro, datblygu economaidd, adfywio a chynllunio. Mae cyfyngiadau i'n pwerau presennol mewn perthynas â gwasanaethau bws a rheilffordd, ond rydym yn ceisio pwerau ychwanegol yn y ddau faes hyn. O gofio hyn, byddwn yn ystyried

ymhellach sut y gellid defnyddio pwerau ychwanegol, os cânt eu rhoi, er mwyn ei gwneud yn bosibl darparu gwasanaethau integredig.

## Ardaloedd Menter

13. Mae pedair o'r saith Ardal Fenter yn y Dinas-ranbarthau ac mae Byrddau'r ddau Ddinas-ranbarth yn glir iawn wrth nodi eu bod yn ystyried Ardaloedd Menter yn safleoedd cyflogaeth strategol allweddol sydd o bwys rhanbarthol. Mae llwyddiant Parthau Menter yn ymwneud â gweithgarwch o fewn eu ffiniau, yn ogystal â gweithgarwch y tu allan i Ardaloedd Menter ar lefel strategol, ranbarthol.

14. Mae'r cysylltiadau rhwng yr Ardaloedd Menter a'r sectorau economaidd â blaenoriaeth yn tanlinellu eu pwysigrwydd rhanbarthol. Ym Mae Abertawe, mae ffocws Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau ar y sector Ynni a'r Amgylchedd yn bwysig i'r rhanbarth yn gyffredinol, o ystyried cryfder y gadwyn gyflenwi a'r llifau cyflogaeth sy'n cefnogi cymunedau ym mhob rhan o'r Rhanbarth, ymhell y tu hwnt i ffin yr Ardal Fenter. Mae'r tair Ardal Fenter ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd yn canolbwyntio ar wasanaethau ariannol a phroffesiynol a gweithgynhyrchu. Mae'r rhain o bwys rhanbarthol o ran cefnogi gweithgarwch economaidd a swyddi yn y rhanbarth ehangach.

<u>Datblygiadau diweddar yn yr Ardaloedd Menter</u>

15. Mae pob Ardal Fenter yn wahanol ac yn wynebu ei heriau a'i chyfleoedd ei hun. Cafodd y Pwyllgor Menter a Busnes bapur tystiolaeth yn gynharach eleni, yn nodi datblygiadau a chynnydd yn y saith Ardal Fenter. Rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiad diweddaru manwl ar ein gwefan. Mae datblygiadau diweddar yn arwain at fuddsoddiadau yn ein Hardaloedd Menter, yn y gogledd a'r de, fel Pencadlys Ewropeaidd Alert Logic yn Ardal Canol Caerdydd a'r buddsoddiad mewnol newydd gan gwmni o Japan, Calbee yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy. Mae'r uchafbwyntiau eraill yn cynnwys:

- y buddsoddiad yn Adeilad 1, Cwr y Ddinas, yn Ardal Fenter Canol Caerdydd sydd eisoes yn cael ei osod yn llwyddiannus gan arwain at enillion economaidd
- astudiaeth ddichonoldeb bwysig o'r posibilrwydd o greu Canolfan Sgiliau Gweithgynhyrchu a Thechnoleg Uwch yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy
- cynlluniau prentisiaeth a rennir ar gyfer Ardaloedd Menter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Glannau Dyfrdwy, a fydd yn cefnogi cwmnïau sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi o safon
- archwiliwyd cyfleoedd i ddatblygu eiddo masnachol yn Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy, Ynys Môn a Glynebwy.

16. Rwyf wedi cyhoeddi data perfformiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2014. Yn ddiweddar ymrwymais i gyhoeddi data bob chwe mis, ac fe fyddaf yn darparu'r wybodaeth hon yn fuan.

17. Rydym wedi gwneud gwaith ymchwil i Orchmynion Datblygu Lleol ac wedi cyhoeddi Adroddiad Ymchwil ar Orchmynion Datblygu Lleol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Cyhoeddwyd papur sy'n crynhoi canfyddiadau'r adroddiad ac sy'n amlinellu buddiannau posibl Gorchmynion Datblygu Lleol i Ardaloedd Menter.

18. Yn ogystal, cynhaliwyd pedair sioe deithiol ledled Cymru yn gynharach eleni i godi ymwybyddiaeth o fuddiannau Gorchmynion Datblygu Lleol ymysg Awdurdodau Lleol Cymru. Cymerodd cynrychiolwyr o chwech o'r Awdurdodau lle ceir Ardaloedd Menter ran yn y digwyddiadau. Fodd bynnag, yn y pen draw, mater i Awdurdodau Lleol yw dod i benderfyniad ar ddefnyddio Gorchmynion Datblygu Lleol.

19. O ran llywodraethu, comisiynais Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru i roi cyngor ar drefniadau llywodraethu arfer gorau ar gyfer Ardaloedd Menter. Rwy'n rhagweld y bydd ei adroddiad wedi'i gadarnhau erbyn diwedd Tachwedd a byddaf yn hapus i'w rannu â'r Pwyllgor.

## Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

20. Mae Dinas-ranbarthau, Ardaloedd Menter a'r Metro yn dair agwedd ar ddull gweithredu polisi cydlynol lle caiff eu cydberthynas, eu rhyngddibyniaeth a'u prosesau rhyngweithio eu cydnabod yn llawn. Nid tri maes gweithgarwch gwahanol sy'n cael eu datblygu ar wahân yw'r rhain. Yn hytrach maent yn cefnogi ein dull ehangach o ymdrin â'r economi sy'n canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth.

21. Maent yn datblygu ar gyflymder gwahanol ac mae'r Dinas-ranbarthau, yr Ardaloedd Menter a'r Metro wedi cyrraedd camau gwahanol o ran eu datblygiad a'u haeddfedrwydd. Fodd bynnag, yn y tri maes mae ein prosesau datblygu a chyflawni polisi yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan rôl gref ar gyfer y sector preifat, ac o fewn hynny ceir rhyngweithio rhwng y Dinas-ranbarth a'r Byrddau Ardaloedd Menter perthnasol.